**Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De**

Mae hon yn strategaeth sydd ar waith ac sy'n amlinellu prif nodau'r tasglu. Mae'n cael ei hategu gan gynlluniau gwaith manylach ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth a bydd yn cael ei gwella wrth i ganlyniadau'r ymarfer ymgysylltu a gynhaliwyd yn chwe mis cyntaf 2017 ddod i'r fei.

<u>Gweledigaeth – Yr hyn rydym am ei gyflawni erbyn 2021?</u>

Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a refferendwm yr UE.

Mae Cymoedd y De wedi bod yn ffocws sawl menter, rhaglen a phrosiect gan y llywodraeth ers datganoli ac, ynghyd â Gorllewin Cymru, mae wedi llwyddo i sicrhau degau o filiynau o bunnoedd o gyllid strwythurol Ewropeaidd o ganlyniad i'r lefelau amddifadedd uchel. Ond er y mentrau hyn a thargedu buddsoddiad yr UE mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol penodol, tynnodd refferendwm yr UE, yn arbennig, dynnu sylw at boblogaeth yng nghymunedau'r cymoedd sy'n teimlo eu bod wedi cael eu hesgeuluso; wedi'u gadael ar ôl a heb elwa ar fuddsoddiad yng Nghymru nac ar ad-drefnu'r gwasanaeth cyhoeddus.

Mae Cymoedd y De yn cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd yng Nghymru, ond mae llawer o drefi a phentrefi sy'n ffynnu'n economaidd ym mhob cwm; busnesau llwyddiannus a rhai sy'n tyfu a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflogi degau o filoedd o bobl leol.

Erbyn 2021, bydd y tasglu wedi denu cyfran o'r twf sydd i'w weld i'r de o goridor yr M4 i'r cymoedd ac wedi creu swyddi o ansawdd da, gyda thelerau ac amodau teg i weithwyr cyflogedig. Bydd y tasglu wedi galluogi i bobl sy'n byw yn y cymoedd i gael mynediad i'r hyfforddiant sgiliau iawn i gael gwaith a bydd wedi cefnogi busnesau i dyfu a ffynnu ledled Cymoedd y De.

Ni fydd pobl sy'n byw yng nghymunedau Cymoedd y De yn teimlo'u bod wedi'u hesgeuluso mwyach nac yn teimlo eu bod yn bell o waith Llywodraeth Cymru neu ei blaenoriaethau. Byddant yn teimlo fod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi buddsoddi yn eu cymunedau a'u dyfodol a bod hynny'n bwysig iddynt.

Bydd y tasglu wedi gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a gyda llywodraeth leol i wella mynediad at wasanaethau lleol, sy'n ymateb i anghenion pobl.

Erbyn 2021, ni fydd y cymoedd yn cael eu hystyried mwyach fel ardal ddifreintiedig, ond yn hytrach fel cyrchfan i ymwelwyr o bob rhan o'r DU a thu hwnt.

<u>Ymgysylltu lleol a chymunedol</u>

Mae'r strategaeth lefel uchel hon a'i blaenoriaethau wedi'u llywio gan waith y tasglu ers ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2016. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y gwaith

hwn yn cael ei wella ymhellach gan yr adborth o'r rhaglen ddwys o ymgysylltu lleol a chymunedol a fydd yn cael ei wneud gan y tasglu yn ystod hanner cyntaf 2017.

Ni all y tasglu fabwysiadu dull o'r brig i lawr - mae'n rhaid iddo wrando a chael ei dywys gan yr hyn y mae cymunedau'r cymoedd yn teimlo yw eu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'n rhaid cynnwys hyn yn y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac yn y cynlluniau gwaith a fydd yn cefnogi'r strategaeth lefel uchel hon.

Mae'n bwysig bod pobl yn deall bod gwaith y tasglu ar gyfer pawb sy'n byw yng Nghymoedd y De. Bydd yr ymgysylltu wedi'i gynllunio i feithrin ymdeimlad o berchnogaeth o'r tasglu; ei flaenoriaeth a'i raglen waith barhaus.

Mae'n rhaid i'r ymgysylltu cymunedol fod yn barhaus – mae'n rhaid i'r tasglu allu arddangos sut mae'n gweithredu ar yr adborth y mae'n ei dderbyn.

Mae'n rhaid i'r tasglu hefyd weithio'n agos gyda'i bartneriaid statudol yng Nghymoedd y De, yn enwedig gydag awdurdodau lleol, a fydd yn gwneud cyfraniad allweddol at y dasg o helpu i gyflawni ei nodau. Mae cysondeb â gwaith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd yn hollbwysig, a gyda'r partneriaid sy'n cyfrannu at gynnig Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

Mae cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu manwl i gefnogi gwaith y tasglu.

## Blaenoriaethau

### Swyddi a sgiliau

Mae ffocws ar swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i gael gafael ar y swyddi hyn, wedi'i nodi gan y tasglu fel blaenoriaeth gynnar i'w rhoi ar waith. Mae cynllun swyddi yn cael ei ddatblygu a fydd yn sicrhau ein bod manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad yn y seilwaith sydd yn yr arfaeth neu sydd ar waith, gan gynnwys datblygiad Metro De Cymru, band eang, tai a buddsoddiadau eraill mewn trafnidiaeth. Byddwn hefyd yn datblygu cynllun seilwaith cynhwysfawr ar gyfer y cymoedd.

Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i darged caled o greu swyddi newydd yn y cymoedd a datblygu prentisiaethau ar gyfer pob oedran yn ganolog i'r ffocws ar swyddi a sgiliau.

Bydd y tasglu yn nodi'r ffactorau a fydd yn cefnogi busnesau i dyfu - mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cymorth busnes yn fwy cydlynol; annog entrepreneuriaeth a sicrhau bod gan fusnesau fynediad i'r lleoliad iawn lle gallant dyfu.

Bydd y strategaeth gyflogadwyedd, sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru, yn gwneud cyfraniad allweddol at sicrhau bod gan bobl sy'n byw yn y cymoedd y sgiliau iawn. Bydd y cymoedd yn cael eu defnyddio fel lleoliad i arbrofi a datblygu ffyrdd newydd, llawn dychymyg o gynyddu'r cyfleoedd i gynnwys darpar bartneriaid amrywiol. Dyma faes gweithgarwch arall lle mae cyfle i integreiddio'n agosach â blaenoriaethau newydd y fargen ddinesig.

Bydd cyfleoedd eraill i sicrhau cymaint o swyddi a sgiliau â phosibl yn cynnwys:

- Dyfodol y stryd fawr – sut ydyn ni am iddyn nhw edrych?
- Gwell swyddi yn agos i gartref
- Addysg – gwireddu potensial cyllid ychwanegol Her Ysgolion Cymru yn 2017-18; cyllid newydd i godi safonau ysgolion dros oes y tymor hwn yn y Cynulliad a'r Ysgolion Arloesol newydd i godi cyraeddiadau addysgol yng Nghymoedd y De
- Herio gwasanaethau cyhoeddus Cymru i leoli swyddi yn y cymoedd.

Gwasanaethau cyhoeddus integredig a gwell

Bydd tair rhaglen beilot, wedi'u lleoli mewn tair cymuned yn y cymoedd, yn cael eu cynnal gan y tasglu i weld sut gellir integreiddio gwasanaethau a darpariaeth leol yn well. Nod y rhaglenni peilot yw datblygu model ar gyfer newid y gellir ei ehangu a'i gynnal mewn ardaloedd eraill ledled Cymru.

Bydd y rhaglenni peilot - yn canolbwyntio ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; addysg ac integreiddio gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol ehangach - yn cael eu llunio i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â diffyg cydgysylltu ar lefelau polisi a chyllido a dulliau rhaglen o'r brig i lawr. Byddant yn sbarduno newid yn y llywodraeth ac o fudd i gymunedau lleol drwy ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y rhai a all wneud y gwahaniaeth mwyaf i gyfleoedd bywyd unigolion sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae prosbectws manwl o'r tair rhaglen beilot yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Yr Amgylchedd

Mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith yn y maes hwn, ond mae'n cynnwys y blaenoriaethau canlynol:

- Manteisio i'r eithaf ar botensial twristiaeth yng Nghymoedd y De - adeiladu ar dreftadaeth ddiwydiannol y rhanbarth a'r potensial ar gyfer gweithgareddau awyr agored;
- Defnyddio amgylchedd naturiol y cymoedd i wella iechyd a lles pobl - annog mwy o bobl i fod yn egnïol a manteisio ar y cefn gwlad o'u cwmpas;
- Gwella amgylchedd ffisegol cymunedau - gan ennyn ymdeimlad o falchder yn y cymoedd drwy fynd i'r afael â phroblemau sbwriel a thipio anghyfreithlon parhaus;
- Cynhyrchu ynni, mewn partneriaeth â chymunedau lleol.

Llesiant cymunedau ac unigolion

Mae gwaith cynnar y tasglu wedi tynnu sylw at bwysigrwydd mynd i'r afael ag ystod ehangach o ffactorau sy'n effeithio ar lesiant pobl sy'n byw yn rhai o gymunedau

mwyaf difreintiedig y cymoedd, yn arbennig y rhai sy'n effeithio ar ansawdd bywyd, a llesiant cymunedau.

Mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith hwn hefyd, ond gallai rhai meysydd gwaith gynnwys:

- Ffurfiau newydd o ymgysylltu â'r gymuned er mwyn mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd;
- Rôl sefydliadau celfyddydol a diwylliannol;
- Rôl y GIG a gofal cymdeithasol a pherthynas newydd ag unigolion ar sail egwyddorion gofal iechyd darbodus; mynediad at well gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys presgripsiynau cymdeithasol;
- Lles meddyliol unigolion - cadernid unigolion;
- Gwasanaethau cyhoeddus darbodus – cadernid cymunedol;
- Tai – cyflwr y stoc tai presennol mewn cymunedau lleol a chyfleoedd ar gyfer adeiladau newydd, yn enwedig mewn perthynas â Metro De Cymru;
- Tai cymdeithasol – cyflwr y stoc tai presennol ac a oes gan denantiaid fuddiant gwerth chweil eu cymunedau;
- Adfywio - mwy na brics a mortar.